

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 25 Mehefin 2003  
**Amser:** 9.00am i 12.30pm  
**Lleoliad:** Ystafell Bwylgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:** **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

David Melding ( <b>Cadeirydd</b> )	Canol De Cymru
Jocelyn Davies	Dwyrain De Cymru
John Griffiths	Dwyrain Casnewydd
Jane Hutt (Gweinidog)	Bro Morgannwg
Ann Jones	Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Jonathan Morgan	Canol De Cymru
Gwenda Thomas	Castell-nedd
Kirsty Williams	Brycheiniog a Sir Faesyfed
Rhodri Glyn Thomas	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
<b>(Eitem 4 yn unig)</b>	

**Hefyd yn bresennol**

Dr Clive Grace	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Comisiwn Archwilio Cymru
Molly Lewis	Pennaeth Perfformiad, Comisiwn Archwilio Cymru

**Swyddogion yBresennol**

Dr Ruth Hall	Prif Swyddog Meddygol
Ann Lloyd	Cyfarwyddwraig, GIG Cymru
Helen Thomas	Cyfarwyddwraig, yr Adran Polisi Cymdeithasol
Graham Williams	Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**Ysgrifenyddiaeth:**

Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Cyd-adolygiadau o Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol Cymru (9.05 - 10.40am)**

**Papur: HSS(2)-02-03(p.1)**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Clive Grace, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Molly Lewis, Pennaeth Perfformiad. Cyflwynodd Graham Williams, Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol, y papur a oedd yn esbonio'r hyn sydd wedi'i wneud hyd yma i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer rhaglen o Gyd-adolygiadau ar gyfer 2004 i 2009.

2.2 Mewn egwyddor roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i gynnal ail gylch o gyd-adolygiadau a phwysleisiodd yr angen iddynt barhau i fod yn drwyadl, yn gadarn ac yn annibynnol. Bu'r adolygiadau yn werthfawr o ran codi ymwybyddiaeth o fewn awdurdodau lleol o'r flaenoriaeth yr oedd angen ei rhoi i wasanaethau cymdeithasol, o'u rôl archwilio eu hunain a'u cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol am y plant o dan eu gofal. Roeddent yn cytuno â'r argymhelliaid i ehangu'r tîm adolygu a chyflwyno asesyd lleyg. Tynnwyd sylw hefyd at y materion canlynol fel elfennau allweddol o'r broses adolygu:

- ◆ Yr angen i allu mesur ac archwilio cynnydd o fewn awdurdodau lleol;
- ◆ Cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, plant a phobl ifanc at y broses adolygu a'r angen i ymgynghori â rhagor o bobl ar y trefniadau manwl ar gyfer yr ail gylch, nid dim ond â'r sefydliadau ffurfiol a gynrychiolir;
- ◆ Cadw'r grid presennol a ddefnyddir i ddangos pa mor dda mae awdurdod yn gwasanaethu ei ddefnyddwyr.

2.3 Dywedodd AGCC a'r Comisiwn Archwilio y byddent yn adeiladu ar brofiad y cylch cyntaf o gyd-adolygiadau ac yn defnyddio'r adroddiadau hynny i nodi unrhyw gynnydd. Byddent hefyd yn parhau i adeiladu ar eu harolgyiadau ac ar werthuso perfformiad ac yn parhau i ddatblygu. Ni fydd yn llai trwyadl na'r cyd-adolygiadau blaenorol ond byddent yn cryfhau'r broses drwy ddefnydd gwell o wybodaeth drylwyrach am reoli perfformiad a phynciau eraill a thrwy ganolbwytio'n fwy ar wendidau. Ni fyddai un maes gwasanaeth yn cael mwy o flaenoriaeth nag un arall a byddai llwyddiant yn cael ei fesur drwy berfformiad cyson ar draws amrywiaeth o wasanaethau. Bydd yr angen i ymgynghori â rhagor o bobl, yn enwedig defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, yn cael ei ystyried yn ystod ail ran yr ymarfer ymgynghori. Cydnabuwyd bod cryn amser rhwng diwedd adolygiad a chyhoeddi'r canfyddiadau ac roeddent yn ymchwilio i ffyrdd o gyflymu'r broses.

2.4 Dywedodd y Gweinidog fod i'r broses gyd-adolygu hygrededd a bod yn rhaid cynnal hwnnw. Roedd bod yn agored, yn drylwyr ac yn gynhwysfawr yn allweddol a dylid dysgu gwersi o'r cylch cyntaf o gyd-adolygiadau. Roedd materion llywodraethu corfforaethol yn bwysig iawn. Un o fanteision pennaf y broses gyd-adolygu oedd bod yn rhaid i'r awdurdod cyfan arddel y broses ac ystyried y canfyddiadau. Dywedodd y gallai fod angen rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar eu rôl craffu. Roedd yn bwysig bod cyd-adolygiadau yn cael eu gweld fel rhan o welliant parhaus ac nid fel un digwyddiad digyswilt, a dyna pam fod y cysylltiad â Rhaglen Wella Cymru a'r fframwaith perfformiad yn hollbwysig. Roedd llawer o dystiolaeth bod awdurdodau lleol wedi ymgynghori â defnyddwyr a gofalwyr o ganlyniad i'r broses gyd-adolygu a gellid adeiladu ar hyn drwy ddatblygu rhan nesaf y broses ymgynghori.

2.5 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd modd i'r Pwyllgor dderbyn y ddogfen ymgynghori fel papur i'w nodi ar gyfer y cyfarfod ar 16 Gorffennaf. Os nad oedd ar gael, gofynnodd i'r Gweinidog roi'r diweddaraf am y broses yn ei hadroddiad i'r cyfarfod hwnnw. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor roi ystyriaeth bellach i'w rhan wrth graffu ar adroddiadau cyd-adolygiadau unigol ac yn enwedig yr angen i fod yn fodlon bod y broses ar gyfer yr ail gylch o adolygiadau yn gadarn.

### Gweithredu

- ◆ Cyhoeddi dogfennau ymgynghori fel papur i'w nodi ar gyfer y cyfarfod ar 16 Gorffennaf neu fel arall bod y Gweinidog yn cynnwys y diweddaraf am y broses yn ei hadroddiad Gweinidogol.
- ◆ Y Pwyllgor i ystyried ei ran wrth graffu ar adroddiadau cyd-adolygiadau unigol.

**Eitem 3: Adroddiad y Pwyllgor Cyfile Cyfartal ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Chrwydriaid (11.00 - 11.40am)**  
**Papur: HSS(2)-02-03(p.2)**

3.1 Cyflwynodd Ann Jones yr adroddiad, sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyfile Cyfartal pan gynhaliwyd yr adolygiad, gan nodi'n fras yr argymhellion o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

3.2 Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion. Tynnwyd sylw at yr anawsterau sy'n wynebu meddygon teulu a deintyddion wrth gofrestru Sipsiwn a Chrwydriaid sy'n symud o gwmpas y wlad yn rheolaidd, ac wrth ddarparu gofal parhaus ar eu cyfer. Bu caniatáu i deuluoedd gadw eu cofnodion meddygol eu hunain yn llwyddiant, yn enwedig gyda phlant. Awgrymwyd y byddai contract newydd meddygon teulu efallai yn gyfle i oresgyn rhai o'r problemau drwy gynnig cymhelliaid ariannol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol. Mynegwyd pryder y gallai Sipsiwn a Chrwydriaid, yn enwedig plant, golli allan ar y gwasanaethau arbenigol sydd eu hangen arnynt, gan y byddai plentyn sy'n symud yn aml o un ardal i'r llall yn gorfol cael ei roi ar wahanol restrau aros yn barhaus.

3.3 Dylid hyfforddi pobl sy'n gweithio ar dderbynfeydd, sef pwynt cyswllt cyntaf Sipsiwn a Chrwydriaid, i allu adnabod ac ymateb i'w hamgylchiadau a'u hanghenion arbennig.

3.4 Awgrymwyd bod digwyddiadau sy'n denu nifer fawr o Sipsiwn a Chrwydriaid, e.e. y Sioe Frenhinol, yn gyfleoedd i ledaenu gwybodaeth a chynnal clinigau ad hoc.

3.5 Dywedodd y Gweinidog y byddai trafodaeth y Pwyllgor yn llywio ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad. Byddai'n sicrhau hefyd bod yr ymateb yn ystyried hygyrchedd gwasanaethau personol a chymdeithasol.

3.6 Byddai contract newydd meddygon teulu yn rhoi cyfle, drwy wasanaethau lleol gwell, i ddatblygu'r argymhellion i'w helpu i gael at wasanaethau gofal sylfaenol. Roedd yn ddyletswydd ar Fyrrdau Iechyd Lleol i asesu anghenion lleol a datblygu strategaethau ar gyfer iechyd a lles lleol, a byddai angen rhoi canllawiau ar sut i ddatblygu hyn mewn perthynas â Sipsiwn a Chrwydriaid.

3.7 Byddai gwasanaethau lleol gwell hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Fyrrdau Iechyd Lleol gomisiynu a darparu pa wasanaethau bynnag a ystyrir yn briodol i ddiwallu anghenion iechyd lleol. Byddai gan Gomisiwn Iechyd Cymru hefyd rôl o ran sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael i bobl.

3.8 Byddai rhoi cofnodion i gleifion eu cadw yn rhan annatod o'r strategaethau newydd ym maes Technoleg a Rheoli Gwybodaeth.

3.9 Roedd arian cywiro anghydraddoldeb ym maes iechyd ar gael ar gyfer prosiectau i ddatblygu gwasanaethau i Sipsiwn a Chrwydriaid a byddai arian ychwanegol yn sgil Adolygiad Townsend.

3.10 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd modd i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut roedd ei argymhellion yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ar wasanaethau i Sipsiwn a Chrwydriaid. Awgrymodd fod y Pwyllgor yn ailystyried y mater ar ôl dwy flynedd i weld pa welliannau a wnaed.

**Gweithredu**

- ◆ Y Gweinidog i roi adroddiad ar y canllawiau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ar wasanaethau i Sipsiwn a Chrwydriaid.

**Eitem 4: Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant ar Gymryd Rhan mewn Chwaraeon ac Ymarfer Corff (11.40 - 12.25pm)**  
**Papur: HSS(2)-02-03(p.3)**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Rhodri Glyn Thomas, sef Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant pan gynhaliwyd yr adolygiad ac y cyhoeddwyd yr adroddiad, a gyflwynodd yr adroddiad gan nodi'n fras yr argymhellion o ran y manteision iechyd sy'n deillio o chwaraeon ac ymarfer corff.

4.2 Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion. Mynegwyd pryder yng hylch trafnidiaeth gyhoeddus wael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a oedd yn rhwystro pobl rhag gwneud ymarfer corff. Roedd gan bobl oedd ag anableddau hefyd broblemau i gael at gyfleusterau.

4.3 Nododd y Pwyllgor fod y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru yn isel o'i gymharu â Lloegr ac ymhell islaw niferoedd Awstralia a'r Ffindir. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Meddygol ystyried cynnwys ystadegau'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff yng Nghymru yn ei Hadroddiad Blynnyddol.

4.4 Awgrymwyd bod gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r GIG, fel cyflogwr mwyaf Cymru, rôl o ran hyrwyddo ymarfer corff yn y gweithle.

4.5 Dywedodd y Gweinidog fod y drafodaeth yn tynnu sylw at yr angen am Lywodraeth ddi-fwlch i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Roedd Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn ffordd o wneud hyn, ac roedd wedi cytuno i edrych ar faterion maeth ac ymarfer corff mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Roedd angen cyfuno ymarfer corff â byw a bwytan well a byddai'r strategaeth faeth yn hyrwyddo hynny. Dylai'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sicrhau bod honno'n cyrraedd y cymunedau mwyaf difreintiedig.

4.6 Roedd rhoi presgripsiwn i wneud ymarfer corff yn ddatblygiad pwysig a hyrwyddwyd drwy Gynghreiriau lechyd Lleol ac a fu hefyd yn destun prosiectau gan y Gronfa Gwella lechyd.

**Gweithredu**

- ◆ Y Prif Swyddog Meddygol i ystyried cynnwys ystadegau ar y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff yng Nghymru yn ei Hadroddiad Blynnyddol.

**Eitem 5: Cofnodion (12.25 - 12.30pm)**  
**Papur: HSS(2)-01-03(min)**

5.1 Cytunwyd ar gofnodion 11 Mehefin. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.